

DEMOCRATIAETH

Mae democratiaeth, yn enwedig democratiaeth leol, yn hanfodol. Mae'n sail i gymdeithas sy'n sicrhau bod ein hanwyliaid yn cael gofal, ein plant yn cael addysg a bod ein cymdogaethau'n ddiogel ac wedi'u cynnal a'u cadw. Mae democratiaeth leol fywiog angen i'r bobl orau gynrychioli eu cymuned leol. Mae angen iddi ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion ein dinasyddion. Yn hanfodol, mae angen dinasyddion sy'n cyfrannu ac yn fodlon gwneud gwahaniaeth yn eu hardal i sicrhau ei ffyniant mewn ffordd agored a theg.

A oeddech chi'n gwybod bod sawl ffordd y gallwch fynegi'ch barn ar democratiaeth leol?

CYSYLLTWCH A'CH CYNGHORYDD LLEOL

Mae eich cyngorwyr etholedig yn eich gwasanaethu chi a'ch cymuned ac yn gyfrifol am ardaloedd o'r ddinas a elwir yn wardiau. Maent yn eich cynrychioli ac yn cyfleu'ch pryderon, ac yn llobio ar eich rhan.

Gallwch gysylltu â'ch cyngorydd drwy e-bost, llythyr neu'r ffôn. Mae llawer o'n haelodau hefyd ar gael ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae manylion cyswllt i gyngorwyr ar gael yma www.cardiff.moderngov.co.uk/mgMemberIndex



GALL POBL IFANC YMUNO A CHYNGOR IEUENTID CAERDYDD

Mae Cyngor Ieuentid Caerdydd (CIC) wedi'i ffurfio o unigolion a chynrychiolwyr o ysgolion a grwpiau ieuentid. Mae dau aelod yn cael eu hethol yn Aelodau'r Senedd Ieuentid. Cynhelir tri 'Chyfarfod Mawr y Cyngor' bob blwyddyn yn Neuadd y Ddinas. Mae llawer mwy o wybodaeth ar dudalen Facebook CIC a'i lif Twitter - @CardiffYC



MYNYCHU CYFARFODYDD CYHOEDDUS

Cynhelir cyfarfodydd cyhoeddus yn rheolaidd gan gynnwys cyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgor Cynllunio (a we-ddarllid yn fyw ar ein gwefan) a chyfarfodydd y Cabinet ynghyd â chyfarfodydd pum Pwyllgor Craffu ar themâu penodol (caiff rhai o'r rhain eu darlledu'n fyw).

Cyhoeddir agenda, papurau, lleoliad ac amser y cyfarfodydd yma www.caerdydd.gov.uk. Gallwch hefyd danysgrifio i dderbyn adroddiadau diweddarau gan gynnwys hysbysiadau pan gaiff agenda newydd ei chyhoeddi a'r diweddaraf am faterion lleol neu bolisi penodol y mae gennych ddi-ddordeb ynddynt. cardiff.moderngov.co.uk/SubscribeToUpdates



DEISEBAU

Mae'r Cyngor yn croesawu deisebau ac rydym yn cydnabod bod deisebau'n un ffordd y gall pobl roi gwybod i ni am eu pryderon. Gellir cyflwyno deisebau i gyfarfod y Cyngor Llawn a'r Pwyllgorau Cynllunio a Thrywydded.

I gyflwyno eich deiseb i'r Cyngor Llawn, cysylltwch â'ch cyngorydd lleol a all ei chyflwyno ar eich rhan chi, neu, ar gyfer unrhyw ddeiseb arall, e-bostiwch gwasanaethdemocrataidd@caerdydd.gov.uk

LAWRLWYTHWCH APP MOD.GOV

Gallwch weld holl bapurau cyhoeddus y pwyllgorau ar eich tecln symudol trwy lawrlwytho app Modern.Gov. Gallwch ddewis pa bwyllgorau yr hoffech chi danysgrifio iddynt a chaiff y papurau perthnasol eu lawrlwytho i'ch tecln pan fyddwch ar-lein nesaf.



DILYNWCH NI AR Y CYFRYNGAU

Rydym yn anfon y newyddion diweddaraf am ein gwasanaethau, digwyddiadau ac ymgynghoriadau'n rheolaidd. Mae'n werth ein dilyn ar Twitter a hoffi ein tudalen Facebook. Mae llawer o'ch cyngorwyr lleol ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae'r hashnod #cyngorcddydd yn dilyn nifer o'r trafodaethau rheolaidd sy'n digwydd ynghylch democratiaeth leol yng Nghaerdydd.



CYFRANNWCH AT YMGYNGHORIADAU CYHOEDDUS

Rydym yn cynnal ymgynghoriadau rheolaidd ar gynigion a allai effeithio arnoch, eich cymuned a'r gwasanaethau a ddarparwn. Mae'r holl ymgynghoriadau ar gael. Mae ymgynghoriadau sy'n mynd rhagddynt ar y funud yn:

- Sgwrs Caerdydd www.sgwrscaerdydd.co.uk
- Gwefan ymgynghori cyhoeddus Holi Caerdydd www.holicaerdydd.com
- Panel Dinasyddion Caerdydd. Rydym hefyd yn sicrhau bod manylion yma, yn Llais y Ddinas, ac yn adeiladau'r Cyngor.



CWESTIYNAU CYHOEDDUS

Os ydych yn byw neu'n gweithio yng Nghaerdydd a bod gennych gwestiwn i'w gyflwyno am rywbeth sy'n bwysig i chi a'ch cymuned, gallwch ofyn cwestiwn cyhoeddus yn un o gyfarfodydd y Cyngor Llawn. Gallwch ofyn un cwestiwn fesul cyfarfod a hyd at ddau mewn unrhyw flwyddyn fwrdeistrefol.

I ofyn cwestiwn cyhoeddus, e-bostiwch gwasanaethdemocrataidd@caerdydd.gov.uk neu ysgrifennwch at 'Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Caerdydd, Ystafell 286, Neuadd y Ddinas, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW.



CYMRYD RHAN TRWY GRAFFU

Mae craffu'n cael ei wneud gan gyngorwyr nad oes ganddynt swyddi yng Nghabinet y Cyngor. Maent yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau atebolrwydd, gonestrwydd a thryloywder, gan weithredu fel cyfaill beirniadol a galluogi llais a phryderon y cyhoedd i gael eu clywed.

Ar ddechrau pob blwyddyn fwrdeistrefol (y diwrnod ar ôl cyfarfod blynyddol y Cyngor ar ddydd Iau olaf mis Mai), bydd pob Pwyllgor Craffu'n dechrau llunio rhaglen waith ar gyfer y 12 mis nesaf. Mae'r Cyngor yn croesawu'ch syniadau am gynnwys ar gyfer ein rhaglenni gwaith. E-bostiwch barngraffu@caerdydd.gov.uk



Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan:

www.caerdydd.gov.uk/eichcyngor neu ffoniwch 029 2087 2432